**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Rhagfyr 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain-Jones, , A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs. D.L. King, Miss S. Roberts, A. Rutherford, a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**36. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield, Ms. J. Hughes, B. Mellor, Mrs W. Mullen James, Ms. V. Roberts, ac R. Turner.

**37. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.**

| ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 37.1 | **CYNLLUNIAU DIWYGIEDIG**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE:** Clwyd Chambers, Clwyd Street, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/0994<br><br>**DISGRIFIAD:** Ailwampio allanol a ffenestri newydd ar yr ochr ac yn y cefn.<br><br>**YMGEISWYR :** James, o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***PREVIOUS PENDERFYNIAD****: Gwrthwynebu; byddai'r caead arfaethedig a newid y ffenestri pren presennol yn rhai PVC yn andwyol i'r Ardal Gadwraeth.*<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 37.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Marine Holiday Park, Ffordd Cefndy, y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Ball<br>Mrs. P.M. Jones |

| | |
|---|---|
| | P. Prendergast<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1058<br><br>**DISGRIFIAD:** Codi adeilad mwynderau<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. W. Williams o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 37.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Parc Manwerthu Cei Marina, Ffordd Wellington, y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1075<br><br>**DISGRIFIAD:** Arddangos arwyddion goleuedig, arwydd totem goleuedig ac arwyddion arddangos goleuedig.<br><br>**YMGEISWYR :** Aldi<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Nodyn 1 uchod mewn perthynas â'r holl arwyddion* |
| 37.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Gwaith Stryd Ffordd Cefndy, Ffordd Cefndy, y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** J. Ball<br>Mrs. P.M. Jones<br>P. Prendergast<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1083<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod polyn 20m o uchder ar gyfer dwy ddysgl trosglwyddo a 4 caban cyfarpar<br><br>**YMGEISWYR :** EE Ltd, & Hutchinson 3G UK Ltd., Hatfield<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 37.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 37 Viola Avenue, y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1085<br><br>**DISGRIFIAD:** Codi estyniad yn y cefn a ffurfio to gwastad i dŷ annedd.<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Julian Hullock o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**38. YMGYNGHORIAD CYN GWNEUD CAIS – DE-DDWYRAIN Y RHYL – CYFNODAU PELLACH**

Cyflwynodd Clerc y Dref ymgynghoriad cyn gwneud cais mewn perthynas â'r datblygiad uchod a gofynnodd i'r Aelodau benderfynu os hoffent wneud sylwadau ar y cynigion.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglyn ag effaith y datblygiad ar y rhwydwaith ffyrdd gerllaw yn enwedig mewn perthynas â'r B5119 ac yn benodol cyffordd Pen y Maes ac adran "Troeon Dyserth".

Teimlwyd bod angen esboniad mewn perthynas â'r ymrwymiadau cynllunio oedd eu hangen gan y datblygiad cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r ysgol a'r ganolfan gymunedol newydd, a dyrannu mannau chwarae i blant a man agored ar gyfer y stad.

Nodwyd hefyd y byddai nifer o bobl ar y stad angen mynediad at lwybrau gwasanaeth bws lleol ac y byddai'n fanteisiol pe gellid ystyried hyn fel rhan o'r cynllun o ran darparu arosfannau a llochesi bws os yn briodol.

***PENDERFYNWYD*** *gwneud cais i Gyngor Sir Ddinbych bod cynrychiolwyr yr Adrannau Cynllunio a Phriffyrdd yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol i roddi trosolwg ar y datblygiad.*

**39. CANSLO CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO IONAWR 2019**

Dywedodd Clerc y Dref bod cyfarfod y Pwyllgor i'w gynnal ar ddydd Mercher 2il Ionawr 2019 wedi ei ganslo, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

**40. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: ……………………........